City & Guilds NPTC Lefel 2 Dyfarniad yn y Defnydd Diogel o Ddip Defaid (0141-03)

Tachwedd 2022 Fersiwn 1.1

Llawlyfr Cymwysterau

Cipolwg ar y cymhwyster

Maes diwydiant	Da byw
Rhif City & Guilds	0141-03
Grŵp oedran	16-19, 19+
Gofynion mynediad	Rhaid i ganolfannau sicrhau fod unrhyw ragofynion a nodwyd yn cael eu cwrdd.
Asesu	I ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r asesiadau canlynol yn llwyddiannus: • Asesiad ymarferol un-i-un gyda holi llafar gan asesydd wedi'i gymeradwyo gan City & Guilds NPTC • Prawf ar-lein amlddewis
Graddio	Llwyddo'n unig
Cymeradwyaethau	Cymeradwyaeth ganolfan lawn Cymeradwyaeth cymhwyster
Deunyddiau cefnogi	am
Cofrestru ac ardystio	Caiff y cymhwyster hwn ei gofrestru a'i ardystio trwy'r Walled Garden ac mae ganddo ddyddiadau cau.

Teitl a lefel	Maint (ODDA)	CAC	Rhif cymhwyster City & Guilds	Rhif Ofqual
City & Guilds NPTC Lefel 2 Dyfarniad yn y Defnydd Diogel o Ddip Defaid	14	20	0141-03	500/7692/9

Fersiwn a dyddiad	Newid manylion	Adran
1.0 Medi 2022	Fersiwn cyntaf	
1.1 Tachwedd 2022	Wedi diweddaru manylion am sut i gofnodi canlyniadau asesiad	Adran 4 Asesu

Cynnwys

Cynnwys		**4**
1 Cyflwyniad		**5**
	Pwrpas y cymhwyster	5
	Strwythur y Cymhwyster	6
	Cyfanswm Amser y Cymhwyster	6
2	**Gofynion y ganolfan**	**7**
	Cymeradwyaeth	7
	Staffio canolfannau	7
	Adnoddau ffisegol	7
	Canllawiau Asesu ar gyfer yr Asesydd	7
	Arfer Diogel	8
	Dilysu Cyfarpar	8
	Lles Anifeiliaid	8
	Cyfyngiadau oed	8
3	**Gweinyddiaeth**	**9**
	Sicrhau ansawdd allanol	9
	Camarfer	9
	Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig	10
	Ystyriaeth arbennig	10
	Cwynion ac apeliadau	10
4 Asesu		
11		
	Trosolwg	11
	Cynnal yr asesiad	11
	Amser asesu	11
	Graddio	11
	Gwybodaeth ychwanegol	12
	Cofnod Asesiad (CA / ROA)	12
	Ffurflenni ARAS	12
Manyleb prawf		**13**
5	**Unedau**	**15**
Uned 02	**Asesiad ymarferol cychwynnol cyn i ddefaid gael eu dipio**	**16**
Uned 03	**Gwybod sut i ddipio defaid**	**21**
Uned 01	**Dipio defaid ymarferol**	**29**
Atodiad 1	**Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol**	**31**

1 Cyflwyniad

Pwrpas y cymhwyster

Mae'r pwrpas canlynol ar gyfer **City & Guilds NPTC Lefel 2 Dyfarniad yn y Defnydd Diogel o Ddip Defaid.**

Maes	Disgrifiad
TROSOLWG	
Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?	Mae'r cymhwyster hwn yn gymhwyster Trwydded i Ymarfer ac mae ar gyfer pob person sy'n defnyddio Dip Defaid (Organoffosffad). Mae gweithio gyda'r cynnyrch hwn yn beryglus i'r gweithlu, i gynhyrchu bwyd ac i'r amgylchedd. Mae'n ofynnol i ddiwydiannau yn y DU gael gweithredwyr/ personél cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n llawn ac sy'n gallu gweithio gydag organoffosffad a'u cymhwyso'n ddiogel. Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer gweithredwyr/personél sy'n ceisio cael mynediad i swydd gysylltiedig, neu sydd eisoes yn gweithio ynddi.
Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu?	Mae'r cymhwyster hwn yn ymdrin â chymhwyso, storio a gwaredu organoffosffad yn ddiogel.
Pa gyfleoedd sydd ar gyfer dilyniant?	Unwaith y bydd person wedi cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, byddai'n helpu i symud ymlaen i gyflogaeth.
Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster?	Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch Asiantaeth yr Amgylchedd Asiantaeth Weithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y Llywodraeth

Strwythur y Cymhwyster

Ar gyfer **City & Guilds NPTC Lefel 2 Dyfarniad mewn Defnydd Diogel o Ddip Defaid** rhaid i ddysgwyr gael eu hyfforddi a'u hasesu yn erbyn y ddwy uned orfodol ganlynol isod.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu i ymgeiswyr sy'n cyflawni **Uned 02** ac **Uned 03**.

Rhif yr uned	Teitl yr uned	Gorfodol neu Ddewisol	ODDA	Credydau	Asesu
02	Asesiad ymarferol cychwynnol cyn i ddefaid gael eu dipio	**Gorfodol**	7	1	Arsylwi ymarfer
03	Gwybod sut i ddipio defaid	**Gorfodol**	7	1	Prawf ar-lein trwy e-volve
01	Dipio defaid ymarferol	**Dewisol**	7	2	Arsylwi ymarfer

Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) yw nifer yr oriau amcanol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid disgwyl yn rhesymol i ddysgwr ddangos cyflawniad o lefel cyrhaeddiad angenrheidiol ar gyfer dyfarnu cymhwyster.

Mae CAC yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

1) Nifer yr oriau y mae sefydliad dyfarnu wedi eu neilltuo i gymhwyster Dysgu dan Arweiniad, ac
2) Amcangyfrif o nifer yr oriau y bydd dysgwyr yn debygol yn rhesymol o'u treulio wrth baratoi, astudio neu unrhyw ffurf arall o gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys asesu, sy'n digwydd fel y cyfarwyddir - ond yn wahanol i Ddysgu o dan Arweiniad, nid o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol - gan ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysgu neu hyfforddiant priodol, arall.

Teitl a lefel	ODDA	CAC
City & Guilds NPTC Lefel 2 Dyfarniad yn y Defnydd Diogel o Ddip Defaid	14	20

2 Gofynion y ganolfan

Cymeradwyaeth

Bydd angen i ganolfannau newydd ennill cymeradwyaeth canolfan. Rhaid i ganolfannau City & Guilds presennol nad ydynt yn cynnig y cymhwyster hwn ar hyn o bryd fynd drwy'r broses Cymeradwyo Cymwysterau (QAP). E-bostiwch **qasupport@cityandguilds.com** i gael rhagor o wybodaeth am y broses gymeradwyo

Staffio canolfannau

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion canlynol:

- bod yn dechnegol gymwys yn y meysydd y maent yn eu cyflwyno
- gallu cyflwyno ar draws ehangder a dyfnder cynnwys y cymhwyster sy'n cael ei addysgu
- bod â phrofiad addysgu ac asesu perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei addysgu, neu'n gweithio tuag at hyn
- dangos DPP parhaus.

Adnoddau ffisegol

Rhaid i ganolfannau allu dangos bod ganddynt fynediad at yr offer a'r adnoddau technegol sydd eu hangen i gyflwyno'r cymhwyster hwn a'i asesiadau.

Canllawiau Asesu ar gyfer yr Asesydd

Rhaid i staff sy'n asesu'r cymwysterau hyn fod yn aseswyr cymeradwy â Thystysgrif Cymhwysedd City & Guilds NPTC a **rhaid iddynt fod yn annibynnol ac ni allant fod wedi bod yn gysylltiedig â hyfforddi'r ymgeisydd.** Dim ond asesydd sydd â chymwysterau addas ac sy'n bodloni gofynion y corff dyfarnu all asesu'r cymhwyster hwn.

Rhaid i aseswyr sydd â Thystysgrif Cymhwysedd City & Guilds NPTC fodloni'r gofynion canlynol:

- dangos cymhwysedd a darparu tystiolaeth o arbenigedd y diwydiant yn y cymhwyster/cymwysterau y maent yn dymuno eu hasesu
- meddu ar y cymhwyster fel ymgeisydd ac wedi cael eu gwerthuso'n dechnegol fel asesydd
- bod yn gyfredol o ran eu gwirio a'u cymorth cyntaf perthnasol
- dangos DPP sy'n parhau'n dechnegol berthnasol

Mae cydymffurfio â'r gofynion hyn yn rhagofyniad i aseswyr sy'n aros ar y rhestr o aseswyr cymeradwy.

Proses o fonitro asesu yw gwirio; mae'n wiriad hanfodol i gadarnhau bod y gweithdrefnau asesu yn cael eu cynnal yn y ffordd y mae City & Guilds wedi'i gosod. Nod cyffredinol gwirio yw sefydlu system o sicrhau ansawdd sy'n dderbyniol o ran hygrededd a chost-effeithiolrwydd a bydd aseswyr cymeradwy yn destun ymweliad rheolaidd gan y Gwiriwr ar adeg pan fo asesiadau'n cael eu cynnal.

Bydd detholiad o adroddiadau asesu a gwblhawyd gan yr asesydd yn cael eu gwerthuso gan Ymgynghorydd Ansawdd a gymeradwywyd gan City & Guilds.

Arfer Diogel

Rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r canllawiau arfer gorau cyfredol bob amser. Cyfeiriwch at ganllawiau a chyhoeddiadau mwyaf cyfredol Lloegr neu'r Awdurdodau Datganoledig: e.e.,

- HSE (Taflen AIS41 Dipio defaid Cyngor i ffermwyr ac eraill sy'n ymwneud â dipio defaid)
- Canllaw GOV.UK - Adwerthu meddyginiaethau milfeddygol
- Cod Ymarfer Dipio Defaid Symudol
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Cod Ymarfer ar gyfer amddiffyn dŵr daear).

Wrth drin dipiau crynodedig, dylai'r gweithredwyr wisgo:

- menig rwber synthetig nad ydynt wedi'u leinio (PVC trwm ar ffurf menig neu nitril o leiaf 0.5 mm o drwch ac o leiaf 300 mm o hyd)
- esgidiau glaw
- coesau neu drowsus gwrth-ddŵr wedi'u gwneud o nitril neu PVC – wedi'u gwisgo y tu allan i esgidiau
- côt wrth-ddŵr neu ffedog bib wedi'i gwneud o nitril neu PVC dros ddillad taniwr neu debyg
- amddiffyniad wyneb.

Wrth weithio gyda golch dip gwanedig:

- gwisgo'r un math o fenig, esgidiau, dillad amddiffynnol coesau a chorff ag ar gyfer dipiau crynodedig
- ystyried gwisgo amddiffyniad wyneb neu het wrth-ddŵr yn ystod dipio i warchod eich wyneb, pen a gwallt rhag sblashys.

Rhaid i unrhyw offer a ddefnyddir gael ei weithredu yn y fath fodd fel nad yw'r ymgeisydd, yr asesydd, personau neu offer eraill mewn perygl.

Bydd methu â gweithredu'n ddiogel a chydymffurfio â'r gofynion hyn yn golygu na fydd yr ymgeisydd yn bodloni'r safon ofynnol.

Dilysu Cyfarpar

Dylai llyfr cyfarwyddiadau Gwneuthurwr neu lawlyfr arall i weithredwyr fod ar gael.

Mae dip defaid sefydlog neu symudol sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol yn dderbyniol ar gyfer asesu **Uned 01** ac **Uned 02** ar yr amod ei fod wedi'i gyfarparu'n briodol ar gyfer yr holl weithgareddau asesu sydd i'w cynnal. Rhaid defnyddio system drosglwyddo gaeedig i waredu cynnyrch dip.

Lles Anifeiliaid

Drwy gydol yr asesiad hwn rhoddir pwyslais mawr ar les anifeiliaid, a fydd yn sail i'r cymhwyster hwn yn ei gyfanrwydd.

Cyfyngiadau oed

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer dysgwyr oed 16 – 19, 19+.

3 Gweinyddiaeth

Rhaid i ganolfannau cymeradwy gael systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau cyflwyniad dilys a dibynadwy o gymwysterau. Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cofrestru canolfan cychwynnol gan City & Guilds a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro gweithdrefnau sicrhau ansawdd.

Mae sicrhau ansawdd yn gyson yn ei gwneud yn ofynnol i City & Guilds a'i ganolfannau cysylltiedig gydweithio'n agos; mae ein Model Sicrhau Ansawdd yn cwmpasu sicrwydd ansawdd mewnol (gweithgareddau a phrosesau a gynhelir o fewn canolfannau) a sicrhau ansawdd allanol (gweithgareddau a phrosesau a gynhelir gan City & Guilds).

Sicrhau ansawdd allanol

Bydd City & Guilds yn ymgymryd â gweithgareddau cymedroli allanol i sicrhau bod y meini prawf sicrhau ansawdd ar gyfer y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni. Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn cydweithredu â staff a chynrychiolwyr City & Guilds wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

Mae City & Guilds yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth y Ganolfan

- hwyluso unrhyw arolygiad o'r ganolfan a gynhelir ar ran City & Guilds
- gwneud trefniadau diogel i dderbyn, gwirio a chadw deunydd asesu'n ddiogel bob amser, cynnal diogelwch deunydd cyfrinachol City & Guilds o'i dderbyn i'r adeg pan nad yw bellach yn gyfrinachol a chadw gwaith aseiniad wedi'i gwblhau a sgriptiau arholiad yn ddiogel o'r adeg y cânt eu casglu gan yr ymgeiswyr hyd at eu hanfon i City & Guilds.

Camarfer

Cyfeiriwch at nodiadau canllaw City & Guilds *Rheoli achosion o gamymddwyn tybiedig mewn arholiadau ac asesiadau.* Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth nodi ac adrodd am gamarfer gan ymgeiswyr a/neu staff y ganolfan a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd wedyn. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamarfer ymgeiswyr a chanolwyr ac mae'n esbonio cyfrifoldebau staff y ganolfan i roi gwybod am gamarfer gwirioneddol neu amheuaeth o gamarfer. Gall canolfannau fynd at y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Ceir enghreifftiau o gamarfer ymgeiswyr isod (nodwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw natur
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gan ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i gynorthwyo copïo), neu ganiatáu i waith gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiad ffug o ddilysrwydd mewn perthynas ag asesiadau
- cymryd arno fod yn rhywun arall.

Mae'r camau hyn yn gyfystyr â chamarfer, y bydd cosb (e.e. anghymhwyso rhag yr asesiad) yn cael ei defnyddio ar ei gyfer.

Pan fydd amheuaeth o gamarfer yn cael ei nodi gan ganolfan ar ôl i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, rhaid i Bennaeth y Ganolfan gyflwyno manylion llawn yr achos i City &

Guilds cyn gynted â phosibl. Cyfeiriwch at y ffurflen yn y ddogfen *Rheoli achosion o gamymddwyn tybiedig mewn arholiadau ac asesiadau*. Fel arall, llenwch y ffurflen, JCQ/M1. Gellir gweld copïau o'r ffurflen hon ar wefan y JCQ: http://www.jcq.org.uk

Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Rydym wedi nodi darpariaethau deddfwriaeth cydraddoldeb wrth ddatblygu a gweinyddu'r fanyleb hon.

Gallwn wneud trefniadau fel y gall ymgeiswyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro gael mynediad i'r asesiad. Rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn cynnal asesiad.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd ymgeiswyr yn gallu cael mynediad at ofynion y cymhwyster.

Cyfeiriwch at *drefniadau mynediad y JCQ ac addasiadau rhesymol a threfniadau Mynediad - pryd a sut y mae angen gwneud ceisiadau i City & Guilds* i gael rhagor o wybodaeth. Mae'r ddau ar gael ar wefan City & Guilds: **http://www.cityandguilds.com/delivering-our-qualifications/centre-development/centre-document-library/policies-and-procedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi cael salwch, anaf neu ddiswyddiad dros dro ar adeg yr arholiad. Lle rydym yn gwneud hyn, fe'i rhoddir ar ôl yr arholiad.

Dylai ceisiadau am naill ai drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig gael eu cyflwyno i City & Guilds gan y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r fersiwn cyfredol o'r ddogfen JCQ, *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig.*

Cwynion ac apeliadau

Mae gan NPTC a'i Ganolfannau Asesu weithdrefn Gwyno ac Apelio ffurfiol. Os bydd unrhyw anfodlonrwydd â'r trefniadau a'r amodau asesu, dylai'r ymgeisydd gysylltu'n gyntaf â'r Ganolfan Asesu y trefnwyd yr asesiad drwyddi a chyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig.

I gael rhagor o wybodaeth am Bolisi Cyfle Cyfartal a Gweithdrefnau Cwynion ac Apeliadau NPTC, ewch i www.nptc.org.uk

4 Asesu

Trosolwg

Uned	Teitl	Gorfodol/ Dewisol	Asesu	Cod Bwcio Evolve
02	Asesiad ymarferol cychwynnol cyn i ddefaid gael eu dipio	Gorfodol	Cwestiynau llafar yng nghyffiniau dip defaid	am
03	Gwybod sut i ddipio defaid	Gorfodol	Prawf amlddewis ar-lein ar e-volve	0141-052 (Saesneg) NEU 0141-054 (dwyieithog/Cymraeg)
01	Dipio defaid ymarferol	Dewisol	Ymarferol	am

Cynnal yr asesiad

Uned 02 Asesiad cychwynnol cyn i ddefaid gael eu dipio (Gorfodol)
Cynhelir yr asesiad ar sail un ymgeisydd i un aseswr gan ddefnyddio cwestiynau llafar yng nghyffiniau dip defaid.

Uned 03 Gwybod sut i ddipio defaid (Gorfodol)
Caiff hyn ei asesu drwy brawf ar-lein e-volve.

Uned 01 Dipio defaid ymarferol (Dewisol)
Mae'r uned hon yn ddewisol ac mae'n cynnwys asesiad ymarferol sy'n cynnwys dipio defaid a gallu'r ymgeisydd i ddefnyddio, storio a gwaredu dipiau defaid yn ddiogel. Anogir ymgeiswyr i gwblhau **Uned 01** yr asesiad, er ei bod yn ddewisol.

Rhaid i'r awdurdodiad priodol gan y Rheoleiddiwr Amgylcheddol priodol fod wedi'i roi ar gyfer gwaredu'r dip defaid er nad yw'n ofynnol i'r asesydd wirio hyn; cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod hyn wedi'i roi.

Rhaid i'r ymgeisydd gael ei gofrestru drwy ganolfan asesu a gymeradwywyd gan NPTC cyn ei asesu.

Amser asesu

Yr amser asesu disgwyliedig yw:

- **Uned 02** – 1 awr 15 munud
- **Uned 03** – 1 awr
- **Uned 01** – 30 munud.

Graddio

Dyfernir y cymhwyster i ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofynion asesu ar gyfer Uned 02 ac Uned 03. Gellir cyflawni'r asesiad(au) â llwyddo yn unig. Os nad yw unrhyw dasg eisoes wedi'i chwblhau mae'r ymgeisydd yn aflwyddiannus.

Gwybodaeth ychwanegol

Yn ystod yr asesu, gall yr ymgeisydd gyfeirio at lawlyfrau gweithredu, defnyddiau hyfforddi neu gyhoeddiadau diogelwch, ond **ni** chânt gyfeirio ar Ddogfennau Arweiniad i'r Cymwysterau.

Mae canllawiau cyffredinol ar y gofynion asesu i'w gweld yn y ddogfen Canllawiau i Aseswyr sydd ar gael ar wefan City & Guilds **www.nptc.org.uk**.

Rhaid i'r asesydd gwblhau taflen marciau'r Tabl Ymarferol ar gyfer pob ymgeisydd y dylai'r asesydd ei chadw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf.

Asesu a chofrestru

Mae asesiad yn broses sy'n caniatáu cadarnhau bod ymgeisydd yn gymwys yn yr Unedau o fewn y dyfarniad y mae'r asesiad yn ymwneud â nhw. Mae'n broses o gasglu tystiolaeth am ei g/allu a barnu a yw'r dystiolaeth yn ddigonol i briodoli cymhwysedd.

Rhaid i'r ymgeisydd gael ei gofrestru trwy Ganolfan Asesu gymeradwy City & Guilds ar gyfer y cymhwyster hwn, cyn yr asesu. Caiff canlyniad yr asesu ei gofnodi ar Ffurflen Adroddiad Asesiad yr Ymgeisydd (CARF).

Ffurflenni ARAS

Rhaid i'r asesydd gwblhau Slip Hysbysiad Canlyniad Asesu (ffurflen ARAS) yn dilyn asesiad. Nid tystysgrif yw'r ARAS ond, yn seiliedig ar dystiolaeth o berfformiad yr ymgeisydd, mae'n argymhelliad i City & Guilds bod yr ymgeisydd naill ai wedi bodloni neu heb fodloni'r meini prawf asesu. Rhaid i'r asesydd gofnodi'r holl adborth ar adran adborth ffurflen ARAS.

Manyleb prawf

Mae'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chwmpasu wedi'i nodi yn y tabl isod:

Papur: **0141-052 (Saesneg)** a **0141-054 (Cymraeg/dwyieithog)**
Teitl papur: **Lefel 2 Dyfarniad yn y Defnydd Diogel o Ddip Defaid**

Math asesiad: Prawf amlddewis ar-lein
Amodau asesu: Dan oruchwyliaeth
Graddio: Llwyddo/Methu
Ffiniau graddau: Y marc llwyddo yw 80%

Uned 03	Parhad: **1 awr**		
Canlyniad Dysgu	**Meini prawf asesu**	**Nifer eitemau / marciau**	
CD1 Gwybodaeth am Barasitiaid	1.1 Nodwch barasitiaid allanol defaid	3	6
	1.2 Disgrifiwch fesurau rhagofalon y gall ffermwyr eu cymryd i leihau'r siawns bod parasitiaid allanol yn mynd i mewn i'w praidd.	1	
	1.3 Esboniwch y camau pwysig wrth drin parasitiaid allanol.	1	
	1.4 Nodwch arwyddion parasitiaid allanol	1	
CD2 Iechyd a Diogelwch	2.1 Disgrifiwch y tasgau y mae'n rhaid eu gwneud o flaen llaw i sicrhau dipio diogel	2	14
	2.2 Esboniwch ofynion Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).	1	
	2.3 Esboniwch brif nodau pawb sydd â rhan mewn dipio defaid a nodweddion hanfodol y dylid eu hystyried i warchod pobl wrth leoli dip defaid	1	
	2.4 Nodwch y rhai na ddylai fod yn bresennol yn yr ardal ddipio.	1	
	2.5 Disgrifiwch achlysuron pan fydd gweithredwyr yn agored i ddip defaid crynodedig	1	
	2.6 Disgrifiwch achlysuron pan allai gweithredwyr fod yn agored i ddip defaid gwanedig	1	
	2.7 Disgrifiwch y camau sydd i'w cymryd yn achos sblashys o ddip defaid crynodedig ar groen neu gyfarpar diogelu personol, halogiad trwm ar PPE gyda dip crynodedig, halogiad trwm o berson â dip gwanedig, a halogi dillad personol wedi'u gwisgo o dan PPE	3	
	2.8 Nodwch symptomau gwenwyno mewn pobl	1	
	2.9 Disgrifiwch gamau allweddol i'w cymryd pan fydd gweithredwr yn teimlo'n sâl yn ystod dipio	1	
	2.10 Disgrifiwch ragofalon y dylid eu cymryd wrth drafod defaid (a rhagofalon ychwanegol wrth drafod defaid gwlyb) yn ystod yr wythnosau ar ôl dipio	1	

	2.11 Esboniwch pam mae hi'n bwysig dilyn y "cyfnod tynnu'n ôl" fel y mae ar ddalen ddata/label y cynnyrch	1	
CD3 Amgylchedd	3.1 Disgrifiwch nodweddion allweddol cyfleuster dipio defaid sy'n helpu i rwystro halogi amgylcheddol	1	12
	3.2 Esboniwch y gofynion allweddol ar gyfer storio dip defaid crynodedig dros gyfnod hir.	1	
	3.3 Disgrifiwch ragofalon a ddylai fod yn eu lle os caiff dip defaid crynodedig ei arllwys	1	
	3.4 Esboniwch y gofynion i helpu i sicrhau bod y dip defaid crynodedig yn cael ei gadw'n ddiogel yn ystod y gwaith dipio	2	
	3.5 Esboniwch ble i gael cyngor ac arweiniad wrth ddefnyddio dip defaid	1	
	3.6 Disgrifiwch ffyrdd diogel o waredu dip defaid crynodedig dros ben a ffyrdd diogel o waredu dip defaid gwanedig a ddefnyddiwyd	2	
	3.7 Esboniwch ofynion a fyddai'n adnabod ardal o dir addas ar gyfer taenu dip defaid gwanedig	2	
	3.8 Disgrifiwch ragofalon a ddylai gael eu cymryd wrth ddelio â chynwysyddion dip defaid gwag	1	
	3.9 Disgrifiwch y peryglon a all godi o waredu dip defaid a ddefnyddiwyd (gwanedig) yn anghywir	1	
CD4 Lles Anifeiliaid	4.1 Disgrifiwch achlysuron pan na ddylid dipio defaid	2	3
	4.2 Disgrifiwch ffyrdd o leihau straen i ddefaid yn ystod dipio	1	
	CYFANSWM	35	

5 Unedau

Uned 02 Asesiad ymarferol cychwynnol cyn i ddefaid gael eu dipio

Lefel	2
ODDA	7
Dull asesu	Arsylwi ymarfer
Nod yr uned	Nod yr uned hon yw paratoi dysgwyr i allu defnyddio dip defaid yn ddiogel ond nid yw'n cynnwys dipio defaid. Fe'i cynhelir ar sail un ymgeisydd i un aseswr, gan ddefnyddio cwestiynau llafar yng nghyffiniau dip defaid.

Canlyniad dysgu:

1. Gallu ymgymryd ag asesiad ymarferol cychwynnol cyn dipio defaid.

Meini prawf asesu:

1.1 amlinellwch y ffactorau hanfodol i'w cynnwys mewn strategaeth gyffredinol i reoli parasitiaid allanol ar gyfer diadell benodol

1.2 disgrifiwch y gweithdrefnau i'w hystyried wrth adnabod yn fanwl gywir barasitiaid allanol penodol

1.3 nodwch gynnwys hanfodol dalen ddata'r cynnyrch / label y cynnyrch

1.4 disgrifiwch y grwpiau o fathau cynnyrch ar gyfer trin parasitiaid allanol mewn defaid

1.5 cyfrifwch gynhwysedd y baddon dipio a swm y dip crynodedig angenrheidiol

1.6 dewiswch a gwisgo PPE fel y nodir ar y daflen ddata / label cynnyrch / asesiad COSHH

1.7 ychwanegwch ddip crynodedig at swm datganedig o hylif mewn dip

1.8 glanhewch, tynnu a storio PPE yn ddiogel

1.9 aseswch ac adrodd ar y "dŵr ffo" diogel effeithiol o ddefaid ar ôl dipio a phwysigrwydd cadw defaid sydd wedi'u dipio'n ffres i ffwrdd o gyrsiau dŵr

1.10 gweithredwch y controlau peirianyddol ar ddip defaid (statig neu symudol) a nodi'r rhesymau dros leoli, adeiladu a chynnal a chadw'r dip, gan gynnwys casglu a draenio corlannau

1.11 amlinellwch y pwyntiau diogelwch hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaredu cynnyrch gwanedig a ddefnyddir yn ddiogel o'r dip

1.12 amlinellwch y ffactorau i'w hystyried wrth ddefnyddio dewisiadau amgen i ddipio trochi ar gyfer rheoli parasitiaid allanol

1.13 esboniwch pam mae lles anifeiliaid yn hanfodol i'r rhai sy'n dipio defaid

1.14 disgrifiwch y rhagofalon i'w cymryd cyn bod pobl sy'n cymryd rhan y gweithrediadau dipio'n bwyta, yfed, ysmygu neu ddefnyddio'r toiled.

1.15 disgrifiwch y ffactorau i'w cofnodi yn dilyn pob gweithrediad dipio

Cwmpas y cynnwys

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am gwmpas y cynnwys sydd i'w gynnwys yn addysgu'r uned er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Testun 1.1

Gall gynnwys:

- Gofynion cyfreithiol ar gyfer:
    - iechyd anifeiliaid
    - cyflogwyr
    - gweithredwyr
    - prynwyr cynnyrch crynodedig
    - gwarchod yr amgylchedd.
- Gwiriadau cyn dipio i leihau'r risgiau i anifeiliaid, pobl a'r amgylchedd.
- Pwysigrwydd cyflwr defaid adeg dipio, hyd cnu, glendid cnu.
- Amser dipio ar gyfer parasitiaid allanol.
- Y dip wedi'i leoli yn unol â chodau cenedlaethol.
- Gweithredu cyfleusterau ac offer dipio yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Mae gweithdrefnau damwain a brys yn eu lle.
- Gofynion ychwanegol Cod Ymarfer Dipio Defaid Symudol.
- Gofynion ychwanegol yn ymwneud â chanllawiau Lloegr neu Awdurdod Datganoledig

Testun 1.2

Gall gynnwys:

- Gwirio arwyddion ffisegol:
    - colli gwlân
    - cyflwr corff
    - Llid / cynnwrf defaid.
- Rhan(nau) o'r corff a effeithir.
- Adnabod parasitiaid.
- Adeg y flwyddyn / amodau tywydd.

Testun 1.3

I gynnwys:

- Enwau masnach.
- Sylwedd(au) actif.
- Categori cyfreithiol.
- Categoreiddio sylweddau peryglus.

Rhybuddion / Rhagofalon:

- cyn dipio
- yn ystod dipio
- ar ôl dipio.

- Gofynion Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).
- Rhif swp.
- Dyddiad dod i ben.
- Targedu parasitiaid.
- Cyfraddau gwanedu (cychwynnol ac ail-lenwi).
- Gofynion dosbarthu.
- Gweithdrefn ddipio.
- Cyfnod tynnu'n ôl.
- Golchi a glanhau'r offer.
- Gofynion storio.
- Cyngor meddygol os bydd argyfwng.
- Argymell gwaredu diogel.

Testun 1.4

I gynnwys:

- Unrhyw Gynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol (naill ai cynhwysion gweithredol neu enw masnach) a awdurdodwyd yn y DU i'w ddefnyddio yn erbyn Gwiddon clafr Defaid ar ddyddiad yr asesiad.
- Unrhyw Gynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol (naill ai cynhwysion gweithredol neu enw masnach) a awdurdodwyd yn y DU i'w ddefnyddio yn erbyn Clêr Chwythu ar ddyddiad yr asesiad.
- Unrhyw Gynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol (naill ai cynhwysion gweithredol neu enw masnach) a awdurdodwyd yn y DU i'w ddefnyddio yn erbyn Trogod ar ddyddiad yr asesiad.
- Unrhyw Gynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol (naill ai cynhwysion gweithredol neu enw masnach) a awdurdodwyd yn y DU i'w ddefnyddio yn erbyn Llau ar ddyddiad yr asesiad.
- Unrhyw Gynnyrch Meddyginiaethol Milfeddygol (naill ai cynhwysion gweithredol neu enw masnach) a awdurdodwyd yn y DU i'w ddefnyddio yn erbyn Cedau ar ddyddiad yr asesiad.

Cyfeiriadau o VMD: https://www.vmd.defra.gov.uk/productinformationdatabase

Testun 1.5

I gynnwys:

- Cywirdeb cyfrifiadau.
- Defnyddio label cynnyrch.
- Y weithdrefn gychwynnol ac ailgyflenwi.

Testun 1.6

I gynnwys:

- Dewis PPE yn ôl taflen ddata cynnyrch / label cynnyrch / asesiad COSHH.
- Gwirio cyflwr PPE.
- Gwisgo PPE mewn trefn gynyddol.

Testun 1.7

I gynnwys:

- Ardal waith ddiogel ar gyfer lleoli system drosglwyddo gaeedig (SDG /CTS).
- Defnydd cywir o PPE.
- Gwybodaeth am osod a gweithredu SDG / CTS.
- Preimio offer SDG CTS.
- Trosglwyddo dip crynodedig yn gywir gan SDG / CTS.
- Gwybodaeth am lanhau offer a chynwysyddion SDG / CTS.
- Darpariaeth dros dro ar gyfer storio dip crynodedig yn ddiogel.

Testun 1.8

I gynnwys:

- Safle priodol ar gyfer glanhau.
- Gweithdrefn lanhau (ymolchi & brwsio).
- Trefn dynnu gywir.
- Gwirio cyflwr PPE.
- Storio mewn man glân, sych a gwarchodedig.
- Gwaredu PPE a niweidiwyd neu olch halogedig yn gywir.

Testun 1.9

- Dŵr ffo diogel:
    - Ardal gorlan ddraenio ddigonol (i ffwrdd o gyrsiau dŵr).
    - Dychwelyd dŵr ffo yn effeithlon yn ôl i'r tanc/baddon dipio.
    - Amser digonol i ddefaid ddraenio.

- Osgoi halogi dŵr:
    - Risgiau llygredd i ddŵr daear neu gyrsiau dŵr eraill.
    - Deall y cyfnod angenrheidiol i'r dip golli gwenwyndra.
    - Pryderon cynyddol ynghylch pob math o risgiau "dŵr", e.e. defnydd hamdden, tynnu dŵr.

Testun 1.10
I gynnwys:
- Gweithredu controlau'n gywir yn unol â chanllaw AIS41.

Gall rhesymau (gan ddefnyddio canllaw AIS41 i gyfeirio ato) gynnwys:
- Lles defaid.
- Erlyn pobl.
- Gwarchod yr amgylchedd.
- Symudiad a rheolaeth defaid yn effeithlon.
- Lleoliad baddon dip defaid / dewis safle ar gyfer baddon dip symudol.
- Cynllun cyfleusterau dipio.
- Cyflwr presennol (absenoldeb treulio/niwed).
- Nodweddion dylunio (beiau a phriodweddau).
- Dulliau o wella cynllun a dyluniad.
- Darparu cyflenwad dŵr a gorchudd digonol ar gyfer dip pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Testun 1.11
Gall gynnwys:
- Gofynion storio dros dro tra'n aros i gael ei waredu.
- Defnyddio cludydd gwastraff cofrestredig.
- Wrth ddefnyddio tir addas:
    - Awdurdodiad gan yr asiantaeth briodol
    - Adnabyddiaeth o dir addas
    - Cyfradd gwanediad cywir (1 rhan o ddip i 3 rhan o slyri neu ddŵr)
    - Cywir ddefnyddio cywir (uchafswm 5000 litr yr hectar).
- Cofnodion o waredu dip defaid gwastraff (cedwir am 5 mlynedd)
- Lleihau'r risgiau i bersonél, anifeiliaid a bywyd gwyllt.
- Lleihau llygredd amgylcheddol.

Testun 1.12
Gall gynnwys:
- Dewisiadau eraill yn lle dipio trochi:
    - arllwys arnynt
    - triniaeth sbot
    - brechiadwy.
- Effeithiolrwydd triniaeth.
- Gwrthiant lleiddiad ectoparasit/anthelmintig.
- Ffactorau cost.

- Gofyniad i ddefnyddio gwasanaethau contractwyr.

Testun 1.13
Gall gynnwys:
- Bodloni deddfwriaeth lles anifeiliaid.
- Ystyriaethau'r farchnad a hyder defnyddwyr.
- Cynnal perfformiad cynhyrchiol mewn stoc.
- Cynnal cyfrifoldebau moesol.
- Parhau i gydymffurfio â'r cynllun iechyd stoc cyffredinol.

Testun 1.14
I gynnwys:
- Golchi a thynnu PPE.
- Symud i ffwrdd o'r ardal ddipio.
- Golchi dwylo, yr wyneb a'r croen agored gyda sebon a dŵr.

Testun 1.15
I gynnwys:
- Enw masnach y cynnyrch a ddefnyddiwyd.
- Sylwedd(au) actif.
- Swm a ddefnyddir.
- Cyflenwr.
- Rhif swp.
- Dyddiadau triniaeth.
- Diwedd y cyfnod tynnu'n ôl.
- Rhifo ac adnabod defaid i'w trin.
- Pob person sy'n cymryd rhan ac sy'n bresennol unrhyw adeg.
- Dull o waredu dip.

Uned 03 Gwybod sut i ddipio defaid

Lefel	2
ODDA	7
Dull asesu	Prawf ar-lein amlddewis
Nod yr uned	Nod yr uned hon yw paratoi dysgwyr sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i allu defnyddio dip defaid yn ddiogel.

Canlyniad dysgu:

1. Gwybod am barasitiaid.

Meini prawf asesu:

1.1 Nodwch barasitiaid allanol defaid

1.2 Disgrifiwch fesurau rhagofalon y gall ffermwyr eu cymryd i leihau'r siawns bod parasitiaid allanol yn mynd i mewn i'w praidd.

1.3 Esboniwch y camau pwysig wrth drin parasitiaid allanol.

1.4 Nodwch arwyddion parasitiaid allanol

Cwmpas y cynnwys

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am gwmpas y cynnwys sydd i'w gynnwys yn addysgu'r uned er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Testun 1.1

Mae'n cynnwys:

Gwiddon.
- Trogod.
- Llau.
- Ced.
- Clêr chwythu.

Testun 1.2

Mesurau bioddiogelwch wedi'u dilyn, gan gynnwys:

- Cynnal diadell gaeedig neu weithio o fewn egwyddorion diadell gaeedig.
- Asesu risgiau o brynu defaid o farchnadoedd.
- Prynu stoc newydd o ffynhonnell ag enw da.
- Sicrhau bod cerbydau sy'n cael eu defnyddio i gludo stoc yn cael eu glanhau a'i diheintio cyn eu defnyddio.
- Cadw stoc wedi'i brynu ar wahân i'r brif ddiadell hyd nes y caiff statws iechyd ei gadarnhau.
- Os oes angen, dylid trin stoc newydd pan fyddant yn cyrraedd y fferm.
- Sicrhau bod yr holl ffensys ffin yn ddiogel.
- Sicrhau bod contractwyr wedi cymryd rhagofalon priodol yn erbyn mewnforio parasitiaid allanol.

Testun 1.3
Mae'n cynnwys:
- Adnabod y broblem yn gywir.
- Trin â'r cynnyrch mwyaf effeithiol.
- Darllen a dilyn cyfarwyddiadau ar y daflen ddata cynnyrch/label cynnyrch.
- Defnyddio'r dull trin mwyaf effeithiol.
- Amseru'r defnydd ar gyfer yr effeithiau gorau.
- Sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei gymysgu ar gyfradd wanedu gywir
- Rhoi gwybod am ddigwyddiad anffafriol, gan gynnwys diffyg effeithiolrwydd, i'r VMD (SARSS).

Testun 1.4
Mae'n cynnwys:
- Rhwbio.
- Wedi'u cynhyrfu.
- Colli gwlân.
- Colli cyflwr.
- Marwolaeth Anifail.

Canlyniadau Dysgu:

2. Gwybod am iechyd a diogelwch.

Meini prawf asesu:

2.1 disgrifiwch y tasgau y mae'n rhaid eu gwneud o flaen llaw i sicrhau dipio diogel
2.2 esboniwch ofynion Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).
2.3 esboniwch brif nodau pawb sydd â rhan mewn dipio defaid a nodweddion hanfodol y dylid eu hystyried i warchod pobl wrth leoli dip defaid
2.4 nodwch y rhai **na** ddylai fod yn bresennol yn yr ardal ddipio.
2.5 disgrifiwch achlysuron pan fydd gweithredwyr yn agored i ddip defaid **crynodedig**
2.6 disgrifiwch achlysuron pan allai gweithredwyr fod yn agored i ddip defaid **gwanedig**
2.7 disgrifiwch y cam i'w gymryd os yw'r canlynol yn digwydd:
- Mae sblashys o ddip defaid **crynodedig** yn mynd ar y croen agored neu'r PPE
- PPE yn cael ei halogi'n drwm â dip defaid **crynodedig**
- person wedi'i halogi'n drwm â dip defaid **gwanedig** (e.e. yn cwympo i'r baddon dip)
- dillad personol sy'n cael eu gwisgo o dan PPE yn cael eu halogi.

2.8 nodwch symptomau gwenwyno mewn pobl
2.9 disgrifiwch gamau allweddol i'w cymryd pan fydd gweithredwr yn teimlo'n sâl yn ystod dipio
2.10 disgrifiwch ragofalon y dylid eu cymryd wrth drafod defaid yn ystod yr wythnosau'n dilyn dipio a rhagofalon **ychwanegol** wrth drafod defaid gwlyb yn ystod yr wythnosau ar ôl dipio
2.11 esboniwch pam mae hi'n bwysig dilyn y "cyfnod tynnu'n ôl" fel y mae ar ddalen ddata'r cynnyrch/label y cynnyrch

Cwmpas y cynnwys

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am gwmpas y cynnwys sydd i'w gynnwys yn addysgu'r uned er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Testun 2.1

Mae'n cynnwys:

- Dewis y cynnyrch priodol a argymhellir.
- Gwirio bod y cynnyrch wedi'i labelu â Rhif Awdurdodi Marchnata.
- Darllen label y cynnyrch.
- Sicrhau bod y cyfarpar (a'r cyfleusterau dipio) i'w defnyddio'n gweithio'n dda.
- Penderfynu sut i waredu golch dip a ddefnyddiwyd yn ddiogel.
- Gwirio bod digon o offer amddiffyn personol priodol (PPE) ar gael.
- Sicrhau bod y bobl sydd â rhan yn y dipio wedi cael gwybodaeth a hyfforddiant digonol.
- Darparu cyflenwad dŵr addas – rhaid i dapiau sy'n gysylltiedig â'r prif gyflenwad dŵr fod wedi'u ffitio â falfiau di-ddychwel.

Testun 2.2

Mae'n cynnwys:

- Nodi'r peryglon.
- Asesu'r risgiau.
- Esbonio opsiynau lliniaru ar gyfer y risg a nodwyd.
- Cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd.
- Hyfforddi gweithredwyr dipiau a'u diweddaru.

Testun 2.3

Mae nodau'n cynnwys:

- Rheoli parasitiaid.
- Osgoi afiechyd mewn pobl.
- Osgoi niwed i'r amgylchedd.
- Sicrhau lles y defaid.

Nodweddion hanfodol wrth leoli dip yn cynnwys:

- Agosrwydd at gyrsiau dŵr, ffynhonnau a thyllau turio.
- Awyru da.
- Atal mynediad y cyhoedd.

Testun 2.4

Mae'n cynnwys:

- Plant.
- Y rhai a gynghorwyd gan eu meddyg i osgoi cynhyrchion dip.
- Anifeiliaid nad ydynt yn cael eu dipio (gan gynnwys anifeiliaid anwes domestig).
- Pob un arall nad oes eu hangen yn y gwaith dipio.

Testun 2.5

Mae'n cynnwys:

- Paratoi'r baddon dipio.
- Defnyddio system drosglwyddo gaeedig.
- Trafod PPE halogedig.
- Cludo cynwysyddion dip crynodedig a niweidiwyd.

- Llwybrau bod yn agored e.e. drwy amsugno drwy'r croen, drwy lyncu neu drwy anadlu anwedd neu aerosol.

Testun 2.6

Mae'n cynnwys:

- Yn ystod dipio.
- Glanhau'r cynhwysydd crynodedig.
- Trafod defaid newydd eu dipio (noder: argymhellir na ddylid trafod defaid am gyfnod o dri mis ar ôl eu trin. Os caiff ei drin, dylid gwisgo PPE priodol).
- Wrth ryddhau defaid o gorlannau draenio.
- Gwaredu dip defaid gwanedig a ddefnyddiwyd.
- Glanhau cyfarpar a PPE.

Testun 2.7

Mae sblashys o ddip defaid **crynodedig** yn mynd ar y croen agored neu'r PPE:

- Golchi sblashys ar unwaith gyda llawer o ddŵr oer glân.

PPE yn cael ei halogi'n drwm â dip defaid **crynodedig**:

- Tynnu dillad halogedig ar unwaith a'u golchi neu eu gwaredu'n ddiogel mewn bag wedi'i selio.
- Os yw'r dipio i barhau, gwisgwch ddillad glân.

Person wedi'i halogi'n drwm â dip defaid **gwanedig** (e.e. yn cwympo i'r baddon dip):

- Trin fel argyfwng.
- Tynnu o'r ffynhonnell halogi cyn gynted â phosibl.
- Tynnu'r holl ddillad halogedig ar unwaith.
- Yna golchi'r holl groen heintiedig gyda llawer o ddŵr glân.
- Sicrhau bod dŵr-golchi-i-ffwrdd yn cael ei gynnwys.
- Ceisio cyngor meddygol brys.
- Dweud wrth y meddyg pa gynnyrch a ddefnyddiwyd a mynd â thaflen ddata cynnyrch/label cynnyrch.
- Rhoi gwybod am bob achos o afiechyd cyn gynted â phosibl i'r VMD a'r HSE (Yng Ngogledd Iwerddon, Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon).

Dillad personol sy'n cael eu gwisgo o dan PPE yn cael eu halogi:

- Tynnu dillad halogedig ar unwaith a'u golchi (gan sicrhau nad yw draeniau neu gyrsiau dŵr wedi'u halogi) neu eu gwaredu yn unol â deddfwriaeth.
- Golchi'r holl groen a all fod yn agored â llawer o ddŵr oer glân.
- Os yw'r dipio i barhau, gwisgwch ddillad glân.

Testun 2.8

Mae'n cynnwys:

- Teimlad o flinder llwyr, gwendid a phryder.
- Cur pen / pen tost.
- Pendro.
- Poenau abdomenol tebyg i gramp, cyfog a chwydu.
- Poenau brest.
- Chwysu gormodol.
- Plycio cyhyrau cyffredinol.

- Confylsiynau.
- Dolur rhydd.
- Anhawster eithafol wrth anadlu.
- Golwg aneglur.
- Glafoerio.
- Paresthesia (pinnau bach).
- Sensiteiddio croen.
- Cosi.

Testun 2.9

Mae'n cynnwys:

- Cymryd person i ffwrdd o'r ardal ddipio.
- Golchi a thynnu dillad amddiffynnol.
- Tynnu unrhyw ddillad personol halogedig.
- Golchi croen agored.
- Ceisio cyngor meddygol brys.
- Dweud wrth y meddyg pa gynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio a mynd â thaflen ddata.
- Adrodd gofynion o dan RIDDOR i HSE.
- Adrodd gofynion o dan SARSS i VMD.

Testun 2.10

Rhagofalon:

- Trafod cyn lleied ag sy'n bosibl.
- Gwisgo troswisg.
- Gwisgo menig rwber synthetig tafladwy o ansawdd da,
- Golchi dwylo a chroen agored ar ôl cwblhau'r gwaith.

Rhagofalon **ychwanegol** ar gyfer defaid gwlyb:

- Gwisgo esgidiau glaw.
- Gwisgo trowsus gwrth-ddŵr.
- Gwisgo cot wrth-ddŵr.

Testun 2.11

Mae'n cynnwys:

- Sicrhau nad yw gweddillion dip defaid yn effeithio ar ddefnyddwyr cig defaid neu gynhyrchion defaid.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth.

Canlyniad dysgu:

3. Gwybod am ffactorau amgylcheddol.

Meini prawf asesu:

3.1 disgrifiwch nodweddion allweddol cyfleuster dipio defaid sy'n helpu i rwystro halogi amgylcheddol

3.2 esboniwch y gofynion allweddol ar gyfer storio dip defaid crynodedig dros gyfnod hir.

3.3 disgrifiwch ragofalon a ddylai fod yn eu lle os caiff dip defaid crynodedig ei arllwys

3.4 esboniwch y gofynion i helpu i sicrhau bod y dip defaid crynodedig yn cael ei gadw'n ddiogel yn ystod y gwaith dipio

3.5 esboniwch ble i gael cyngor ac arweiniad wrth ddefnyddio dip defaid
3.6 disgrifiwch ffyrdd diogel o waredu dip defaid crynodedig dros ben a ffyrdd diogel o waredu dip defaid gwanedig a ddefnyddiwyd
3.7 esboniwch ofynion a fyddai'n adnabod ardal o dir addas ar gyfer taenu dip defaid gwanedig a ddefnyddiwyd
3.8 disgrifiwch ragofalon a ddylai gael eu cymryd wrth ddelio â chynwysyddion dip defaid gwag
3.9 disgrifiwch y peryglon a all godi o waredu dip defaid a ddefnyddiwyd (gwanedig) yn anghywir

Cwmpas y cynnwys

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am gwmpas y cynnwys sydd i'w gynnwys yn addysgu'r uned er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Testun 3.1
Mae'n cynnwys:
- Nodi risg posibl o halogi amgylcheddol.
- Dip gwanedig yn draenio o'r dip defaid yn cael ei sianelu'n ôl i mewn i'r baddon dipio.
- Wedi'i leoli i ffwrdd o ffynhonnau, tyllau turio, cyrsiau dŵr, tarddellau a systemau draenio.
- Y baddon dipio ddim yn gorlifo wrth ei ddefnyddio.
- Dim twll draenio.
- Rhwyddineb gwagio.
- Mae corlannau draenio o faint digonol.
- Nid yw'r baddon dipio'n gollwng.

Testun 3.2
Mae'n cynnwys:
- Mewn cynhwysydd gwreiddiol heb ei niweidio.
- Mewn man diogel wedi'i gloi.
- Mewn storfa wedi'i phennu ar gyfer meddyginiaethau milfeddygol neu blaleiddiad cymeradwy.
- Fel y nodir ar ddalen data'r cynnyrch/label y cynnyrch.
- Cynwysyddion storio i ffwrdd o'r tir.
- I ffwrdd o ddraeniau a chyrsiau dŵr.
- Dulliau o gyfyngu a/neu amsugno gollyngiadau.

Testun 3.3
Mae'n cynnwys:
- Sicrhau bod cyflenwad o ddeunydd amsugno.
- Sicrhau bod cynhwysydd i ddal yr hylif a amsugnwyd yn gallu cael ei selio, nid yw'n gollwng dŵr, nac yn gadael dŵr i mewn.
- Gwaredu deunydd halogedig yn ddiogel ar ôl i'r gollyngiad gael ei lanhau - mewn bag plastig wedi'i labelu wedi'i selio.
- Gwaredu gan gontractwr gwaredu sbwriel trwyddedig.

Testun 3.4

Mae'n cynnwys:

- Wedi'i gadw yn y cynwysyddion gwreiddiol heb eu difrodi.
- Mewn lle saff a diogel (cadw mewn system drosglwyddo gaeedig).
- Mewn cerbyd - os caiff ei gadw mewn cynhwysydd metel atodedig wedi'i gloi.
- Yn cydymffurfio â dalen ddata'r cynnyrch / label y cynnyrch.
- Yn cael ei gadw ar dir gwastad i ffwrdd o ddraeniau a chyrsiau dŵr.

Testun 3.5

Mae'n cynnwys:

- Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon (HSENI)
- Y Rheoleiddiwr Amgylcheddol priodol.
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).
- Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA).
- Y cyflenwr/gwneuthurwr cynnyrch.

Testun 3.6

Crynodiad dros ben:

- Dychwelyd i'r cyflenwr/gwneuthurwr.
- Gan gontractwr gwaredu sbwriel trwyddedig.

Dip gwanedig wedi'i ddefnyddio:

- Gwanedu â dŵr neu slyri ar gyfradd wanedu o 1 rhan o ddip defaid gwanedig i 3 rhan o ddŵr neu slyri.
- Taenu'n ofalus ar ddarn addas o dir ar gyfradd o 5000 litr yr hectar neu 450 galwyn yr erw ar ôl y driniaeth a argymhellir o doddiant gyda dŵr neu slyri ar gyfradd o 1 rhan i 3.
- Cytuno ar y safle gyda'r Rheoleiddiwr Amgylcheddol priodol.
- Gan gontractwr gwaredu sbwriel trwyddedig.

Testun 3.7

Mae'n cynnwys:

- Mae'r tir mor wastad â phosibl, nid yn ddwrlawn nac yn dueddol o ddioddef llifogydd.
- Pan nad yw'r ddaear wedi'i rhewi.
- Mae'r math o bridd, y dyfnder a'r strata sylfaenol yn addas i amsugno'r golch dip.
- Ychydig iawn o werth amwynder a bywyd gwyllt sydd ar gael ac nid yw'n dir dynodedig (e.e. SSIau).
- Does dim mynediad ganddo i bobl neu anifeiliaid.
- Ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer stoc pori am o leiaf fis.
- Peth llystyfiant yn bresennol.
- Nid yw'r cynnwys cnydau.
- Rhaid iddo beidio â bod yn foel, yn denau ei lystyfiant, wedi'i hollti na'i gywasgu.
- Nid yw'n gyfagos i ffynhonnau, cyrsiau dŵr, tarddellau, tyllau turio na systemau draenio newydd a phresennol.
- Rhaid ei daenu dros 10 metr o gyrsiau dŵr a mwy na 50 metr o ffynhonnau a tharddellau.
- Mae wedi'i gymeradwyo at y defnydd hwn gan yr awdurdod perthnasol.

Testun 3.8
Mae'n cynnwys:
- Gwisgo PPE cywir.
- Glanhau cynwysyddion ac offer trosglwyddo caeedig yn drylwyr, rhoi golch yn y baddon dipio defaid.
- Gwaredu gan gontractwr gwaredu sbwriel trwyddedig.
- Peidio ailddefnyddio cynwysyddion.
- Ni ddylid gadael o gwmpas gynwysyddion a ddefnyddiwyd.

Testun 3.9
Mae'n cynnwys:
- Halogi cyrsiau dŵr ar y wyneb neu ddŵr daear.
- Halogi dŵr yfed.
- Marwolaeth adar, pysgod a bywyd gwyllt arall.
- Marwolaeth anifeiliaid domestig neu fferm eraill.
- Niwed i gnydau / tir porfa.
- Erlyn a dirwy.
- Cosbau o ganlyniad i beidio â chydymffurfio.

Canlyniad dysgu:
4. Gwybod am les anifeiliaid.

Meini prawf asesu:
4.1 disgrifiwch achlysuron pan **na** ddylid dipio defaid
4.2 disgrifiwch ffyrdd o leihau straen i ddefaid yn ystod dipio

Cwmpas y cynnwys
Mae'r adran hon yn rhoi manylion am gwmpas y cynnwys sydd i'w gynnwys yn addysgu'r uned er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Testun 4.1
Mae'n cynnwys:
- Pan fydd defaid yn sâl (ac eithrio salwch a achosir gan ectoparasitiaid).
- Pan fydd defaid mewn cyfnod o feichiogrwydd sy'n agored i niwed.
- Pan fydd defaid dan straen.
- Pan fydd defaid newydd fwyta.
- Pan fydd defaid yn sychedig.
- Pryd y gellir lladd defaid o fewn y cyfnod tynnu'n ôl.
- Pan fydd defaid yn wlyb iawn.
- Pan fydd y tywydd yn rhy boeth, neu'n is na rhewi neu pan fydd glaw trwm ar fin digwydd.
- Yn union ar ôl i'r defaid gael eu gyrru.
- Pan fydd grŵp o faint/oedran cymysg.

Testun 4.2
Mae'n cynnwys:
- Trwy beidio gorlenwi'r corlannau cadw, baddon dipio a chorlannau draenio.
- Trwy beidio rhuthro'r gwaith.
- Trwy beidio rhuthro defaid cyn neu ar ôl dipio.

Uned 01 Dipio defaid ymarferol

Lefel	2
ODDA	7
Dull asesu	Arsylwi ymarfer
Nod yr uned	Mae'r uned hon yn cynnwys asesiad ymarferol sy'n cynnwys dipio defaid a gallu'r ymgeisydd i ddefnyddio, storio a gwaredu dipiau defaid yn ddiogel. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i gwblhau'r uned hon er ei bod yn ddewisol. Rhaid bod yr awdurdodiad priodol gan yr asiantaeth amgylcheddol briodol wedi'i roi ar gyfer gwaredu'r dip defaid.

Canlyniad dysgu:

1. Gallu dipio defaid.

Meini prawf asesu:

1.1 esboniwch y gofynion ar gyfer storio dip defaid crynodedig
1.2 cynhaliwch ddip gwanedig mewn cyflwr da
1.3 esboniwch y rhesymau dros ohirio'r gwaith dipio
1.4 nodwch fod defaid mewn cyflwr derbyniol i'w dipio
1.5 gweithiwch fel y gweithredwr allweddol, dipio o leiaf pymtheg dafad mewn baddon trochi sydd wedi'i ddylunio a'i weithredu i safon dderbyniol

Cwmpas y cynnwys:

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am gwmpas y cynnwys sydd i'w gynnwys yn addysgu'r uned er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu.

Testun 1.1

Gall gynnwys:

- Storio diogel.
- Wedi'i fwndelu.
- Arwyddion.
- Silffoedd anhydraidd.
- Gwrthsefyll tân.
- Storio i ffwrdd o fwyd, diod a bwydydd anifeiliaid.
- Wedi'i storio fel na fydd yn cymysgu â chemegau eraill.
- Cynwysyddion mewn cyflwr da.
- Cynwysyddion wedi'u labelu'n gywir.
- Darpariaeth ar gyfer delio â gollyngiad damweiniol.

Testun 1.2
I gynnwys:
- Symud a gwaredu sbwriel yn ddiogel.
- Gwirio lefelau ar faddon dipio.

Testun 1.3
Gall gynnwys:
- Amodau tywydd eithafol.
- Cyflwr annerbyniol defaid.
- Absenoldeb PPE priodol.
- Absenoldeb gweithredwyr wedi'u hyfforddi.
- Materion amgylcheddol.
- Cyfleusterau dipio anfoddhaol.

Testun 1.4
I gynnwys:
- Iechyd a lles cyffredinol:
    - heb wresogi
    - ddim yn flinedig
    - ddim yn sychedig
    - absenoldeb clwyfau neu friwiau.
- Cam beichiogrwydd (os yw'n berthnasol).
- Cynnwys stumog.
- Cyfnod gorffwys.
- Cnu sych.
- O leiaf dair wythnos o dwf gwlân.
- Heb eu trochi gydag anthelmintig 2-LV (melyn) am o leiaf 14 diwrnod cyn, a 14 diwrnod ar ôl dipio.

Testun 1.5
I gynnwys:
- Gwiriadau cyn dipio i ganfod uniondeb ac addasrwydd y cyfleuster dipio a PPE.
- Nid yw personél neu anifeiliaid nad ydynt yn hanfodol yn bresennol.
- Cynnal lles anifeiliaid.
- Cynnal diogelwch gweithredwyr.
- Mynediad cywir ac amser trochi yn y dip.
- Cymryd gofal i sicrhau nad yw defaid yn llyncu neu'n mewnanadlu unrhyw doddiant dip.
- Defaid yn gadael y dip yn gywir a diogel.
- Nifer priodol o ddefaid mewn corlannau draenio.
- Draenio cywir dip gwanedig yn ôl i'r dip/baddon.
- Gofynion ychwanegol Cod Ymarfer Dipio Defaid Symudol.

Atodiad 1 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol ar gyfer canolfannau sy'n darparu cymwysterau City & Guilds. Dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i *Lyfrgell Dogfennau'r Ganolfan* ar *www.cityandguilds.com* neu cliciwch ar y dolenni isod:

Safonau Sicrhau Ansawdd: Llawlyfr y Ganolfan
Mae'r ddogfen hon ar gyfer pob canolfan gymeradwy ac mae'n rhoi arweiniad i'w helpu i gyflawni ein cymwysterau. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar

- Meini prawf sicrhau ansawdd y Ganolfan a gweithgareddau monitro
- Systemau gweinyddu ac asesu
- Timau cefnogi wynebu canolfannau yn City & Guilds / ILM
- Rolau sicrhau ansawdd y Ganolfan a chyfrifoldebau.

Dylid defnyddio Llawlyfr y Ganolfan i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau Contract y Ganolfan.

Safonau Sicrhau Ansawdd: Asesiad y Ganolfan
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion sicrhau ansawdd cyffredin gofynnol ar gyfer ein cymwysterau a reoleiddir a'n cymwysterau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n cynnwys cydrannau a asesir gan y ganolfan. Bydd canllawiau penodol hefyd yn cael eu cynnwys mewn llawlyfrau cymwysterau perthnasol a/neu ddogfennau asesu.

Mae'n ymgorffori ein disgwyliadau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol canolfannau a'r dulliau sicrhau ansawdd allanol a ddefnyddiwn i sicrhau bod safonau asesu yn cael eu bodloni a'u cynnal. Mae hefyd yn manylu ar yr ystod o sancsiynau y gellir eu rhoi ar waith pan nad yw canolfannau'n cydymffurfio â'n gofynion, neu gamau a gymerir i gysoni marcio/asesu canolfannau â'r safonau gofynnol. Yn ychwanegol, mae'n rhoi arweiniad manwl ar weinyddiad canolfannau diogel a dilys.

Mae *Trefniadau mynediad - Pryd a sut y mae angen gwneud ceisiadau i City & Guilds* yn rhoi manylion llawn am y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys i gael addasiadau mewn asesiad.

Mae *Llyfrgell Dogfennau'r Ganolfan* hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bethau fel:

- Cynnal arholiadau
- Cofrestru dysgwyr
- Apeliadau a chamarfer

Cysylltiadau defnyddiol
Ewch i adran Cysylltu â Ni ar wefan City & Guilds, *Cysylltu* â ni

Ynglŷn â City & Guilds

Fel prif sefydliad addysg alwedigaethol y DU, mae City & Guilds yn arwain y chwyldro talent drwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 o ddiwydiannau drwy 8500 o ganolfannau ledled y byd ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Mae City & Guilds yn cael ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ar draws y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.

Grŵp City & Guilds

Mae Grŵp City & Guilds yn arwain y gwaith o ddatblygu sgiliau byd-eang. Ein diben yw helpu pobl, sefydliadau ac economïau i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer twf. Rydym yn gweithio gyda darparwyr addysg, cyflogwyr a llywodraethau mewn dros 100 o wledydd ledled y byd i helpu pobl, busnesau ac economïau i dyfu drwy lunio systemau sgiliau a chefnogi datblygiad sgiliau.

Mae'r Grŵp yn cynnwys City & Guilds, ILM, Kineo, The Oxford Group, Gen2, ac Intertrain. Gyda'n gilydd, rydym yn gosod y safon ar gyfer addysg broffesiynol a thechnegol a dysgu a datblygiad corfforaethol ledled y byd.

Hawlfraint

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn hawlfraint © The City and Guilds of London Institute ac ni ellir ei chopïo, ei hatgynhyrchu na'i dosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds a dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohono ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
- caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r Amodau Copïo Safonol (gweler gwefan City & Guilds) hefyd mewn grym.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant

City & Guilds of London Institute
Giltspur House
5-6 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DE

cityandguildsgroup.com